Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Gwynedd

Blwyddyn Archwilio: 2020-21

Mis/Blwyddyn Cyhoeddi: Medi 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2436A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a wnaed yn unol ag adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall hefyd lywio astudiaeth i wella gwerth am arian o dan adran 41 o ddeddf 2004, a/neu archwiliad a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cenedlaethol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac o ran unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae adran 45 o'r Cod yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol, ond mae sawl her ariannol o hyd.

Yr hyn y buom yn edrych arno a pham 4

Argymhellion 5

Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol, ond mae sawl her ariannol o hyd 6

Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi'i liniaru o ganlyniad i gyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru 6

Mae gan y Cyngor strategaeth ariannol glir ar gyfer y flwyddyn gyfredol ond mae angen cynllunio mwy ar gyfer y tymor canolig a chanolbwyntio ar wella cynaliadwyedd 7

Mae gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn, gyda'r rhan fwyaf yn cael eu rheoli'n ganolog ac maent yn gyfle i drawsnewid a gwella gwasanaethau 9

Mae gan y Cyngor orwariant sy'n ailddigwydd mewn blwyddyn mewn gwasanaethau allweddol, ac mae adroddiadau monitro'r gyllideb yn amrywio o'r sefyllfa ariannol derfynol a adroddwyd ar ddiwedd y flwyddyn 11

Gall parhau i gario drosodd arbedion heb eu cyflawni achosi pwysau ariannol heb ei ddatys ar wasanaethau; bydd canfod a chyflawni arbedion yn fwy o her yn y dyfodol 13

Mae hylifedd y Cyngor wedi bod yn sefydlog yn y cyfnod 2015-16 i 2019-20 ac mae wedi codi ychydig yn 2020-21 16

# Yr hyn y buom yn edrych arno a pham

1 Cynhaliwyd yr asesiad hwn am fod cynaliadwyedd ariannol yn parhau i fod yn risg i gynghorau sy'n rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian o ran y defnydd o adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei lywio gan brofiadau rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am sefyllfa ariannol cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol i neilltuo llai o adnoddau i lywodraeth leol ynghyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau. Cynhaliwyd prosiect tebyg gennym yn 2019-20, cyn y pandemig COVID-19.

2 Roedd ein hasesiad 2020-21 o gynaliadwyedd ariannol cynghorau wedi'i gynnal mewn dau gam. Roedd Cam 1 yn asesiad gwaelodlin o effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol cynghorau. Roedd Cam 1 yn edrych ar: y sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer 2019-20; y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ar gyfer 2020-21; ac amcanestyniadau ar gyfer chwarter 2 ar gyfer 2020-21. Yn dilyn Cam 1, ym mis Hydref 2020 cyhoeddwyd adroddiad cryno cenedlaethol gennym – **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19**[1]. Canfuom fod cynghorau a Llywodraeth Leol wedi cydweithio'n dda â'i gilydd i liniaru effaith y pandemig hyd yma, ond mae cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus.

3 Mae'r pandemig wedi cael effaith uniongyrchol a sylweddol ar gyllid y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd ac, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol cynghorau. Mae'r adroddiad cryno wedi gosod sefyllfa gwaelodlin lefel uchel, sy'n cynnwys sefyllfa cronfeydd wrth gefn cynghorau cyn y pandemig. Roedd hefyd yn nodi goblygiadau ariannol cychwynnol y pandemig i gynghorau lleol a maint yr her a ragwelir yn y dyfodol.

4 Mae'r adroddiad hwn yn cwblhau cam 2 ein gwaith ar asesu cynaliadwyedd ariannol yn ystod 2020-21. Fel rhan o hyn rydym yn cynhyrchu adroddiad lleol ar gyfer pob un o'r 22 prif gyngor yng Nghymru.

5 Cynhaliwyd yr asesiad hwn yn ystod mis Mawrth 2021.

[1] Archwilio Cymru, Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o Ganlyniad i Bandemig COVID-19, Hydref 2020.

# Argymhellion

**Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella**

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Argymhellion** |
| --- |
| **Cynllun Ariannol Tymor Canolig**<br>A1 Dylai'r Cyngor ddiweddaru ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig yn flynyddol i helpu â chynllunio ariannol. |
| **Pennu'r Gyllideb**<br>A2 Dylai'r Cyngor ddatblygu ymhellach y defnydd o ddata gweithgaredd wrth bennu ei gyllidebau a arweinir gan alw. |
| **Adolygu'r Gyllideb – Dyraniadau Grant Ychwanegol a Throsglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn**<br>A3 Dylai'r Cyngor gynnwys dyraniadau grant sylweddol ar lefelau gwasanaeth yn ei adolygiad o'r gyllideb a lliniaru effeithiau unrhyw drosglwyddiad yn ystod y flwyddyn i gronfeydd wrth gefn i alluogi adrodd tryloyw o'r sefyllfa ariannol |
| **Adolygu Cynlluniau Arbed**<br>A4 Dylai'r Cyngor gynnal adolygiadau cynlluniau arbed hanesyddol o leiaf unwaith y flwyddyn i sicrhau bod modd eu cyflawni o hyd. |

# Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol, ond mae sawl her ariannol o hyd

## Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi'i liniaru gan gyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru

6 Mae'r adran hon yn edrych ar yr effaith mae COVID-19 wedi'i gael hyd yma ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac i ba raddau y cafodd hyn ei liniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

7 Canfuom:

- fod y Cyngor wedi ymateb yn gyflym i'r pandemig, gan adrodd i'r Cabinet ar 19 Mai 2020 **Effeithiau COVID-19 ar gyllideb 2020-21** gan nodi bylchau cyllido a galw am gymorth Llywodraeth Cymru;
- bod y Cyngor wedi wynebu £14.6 miliwn o wariant ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID-19 a £7.8 miliwn o incwm a gollwyd yn ystod 2020-21, ac yn cael £18.5 miliwn o Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru a £2.1 miliwn o ffrydiau cyllido eraill Llywodraeth Cymru;
- bod amcangyfrif o £3.2 miliwn o wariant ychwanegol a £0.2 miliwn o incwm a gollwyd y bydd yn rhaid ei ysgwyddo ac nad yw wedi'i gynnwys o fewn cyllid ychwanegol;
- bod cyllideb 2020-21 yn tybio y bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i wneud iawn am gostau ychwanegol ac incwm a gollir;
- bod cyllideb 2021-22 yn tybio na fydd newid yn y galw nac y bydd gostyngiad mewn gweithgareddau cynhyrchu incwm ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethu o ganlyniad i'r pandemig;
- bod y Cyngor yn cydnabod bod y pandemig wedi gwneud cynllunio ariannol yn hynod o anodd a thynnwyd sylw'r Cabinet at fwlch cyllido o hyd at £8 miliwn ar gyfer 2021-22 ar 13 Hydref 2020 ar gyfer dibenion cynllunio ariannol ond ni chyhoeddodd Gynllun Ariannol Tymor Canolig;
- bod yr adroddiad i'r Cabinet yn nodi 12 ffactor a oedd yn golygu lefel o ansicrwydd ariannol heb ei debyg a allai olygu y byddai'r ystod o ganlyniadau posibl yn cynyddu'n sylweddol ar ôl 2021-22 o ganlyniad i beidio â chynhyrchu Cynllun Ariannol Tymor Canolig; a
- bod y Cyngor yn bwriadu cynllunio ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2021-22 yn yr haf ac nid yw wedi cyfrifo effaith COVID-19 yn ystod y tymor canolig.

**Arddangosyn 2: cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21**

Mae'r tabl isod yn dangos gwariant ychwanegol ac incwm a gollwyd gan y Cyngor yn ystod 2020-21, o ganlyniad i COVID-19, a faint o hyn a ddigolledwyd drwy gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| Y swm ychwanegol y mae'r Cyngor wedi'i wario o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £14.6 miliwn |
| Yr incwm y mae'r Cyngor wedi'i golli o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £7.8 miliwn |
| Maint y cyllid ychwanegol y mae'r Cyngor wedi'i gael gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 i liniaru effaith COVID-19. | £18.5 miliwn |
| Cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21 ar ôl ystyried cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. | £3.9 miliwn |
| Cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i dalu am 'cynilion na chyflawnwyd' a 'trawsnewid digidol'. | £2.1 miliwn |

## Mae gan y Cyngor strategaeth ariannol glir ar gyfer y flwyddyn gyfredol ond mae angen cynllunio mwy ar gyfer y tymor canolig a chanolbwyntio ar wella cynaliadwyedd

### Pam y mae cynllunio ariannol strategol yn bwysig

8 Mae strategaeth ariannol glir a chadarn yn bwysig i ganfod lefel debygol y cyllid fydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel y galw a ragwelir am, a'r gost o ddarparu gwasanaethau. O gofio'r pwysau cyllido diweddar a'r pwysau a ragwelir fydd yn wynebu pob cyngor mae'n bwysig deall sut mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn benodol sut y bydd yn cau'r bylchau cyllido a ragwelir.

Canfuom:


- adroddwyd gennym yn ein Hasesiad o Gynaliadwyedd Ariannol Cyngor Gwynedd a gyhoeddwyd fis Mawrth 2020 fod y **Cyngor mewn sefyllfa ariannol gymharol gref ar hyn o bryd ac mae ei strategaeth ariannol drosfwaol wedi cefnogi cydnerthedd ariannol yn dda; fodd bynnag, mae rhai gwasanaethau'n profi gorwario blynyddol sylweddol ac nid**

**yw'r holl arbedion yn cael eu gwireddu, gan greu risg i gynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy**.

- mae'r Cyngor yn ystyried nifer o ffactorau ariannol ac economaidd wrth bennu ei gyllideb ac mae'n defnyddio gwybodaeth ddemograffig i benderfynu ar y lefelau lle pennir cyllidebau allweddol sy'n ymateb i'r galw
- mae'r Cyngor wedi gwneud dyraniadau cyllideb ychwanegol sylweddol i wasanaethau allweddol sy'n ymateb i'r galw fel rhan o'r broses pennu cyllideb yn y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r gwariant ar rai gwasanaethau'n parhau i fod yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael
- er bod y rhan fwyaf o gyllidebau'r Cyngor o fewn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn, roedd rhai gwasanaethau allweddol sy'n ymateb i'r galw, Plant a Chefnogi Teuluoedd yn fwyaf arbennig, wedi bod o dan bwysau ariannol am gyfnod hir, sy'n arwain at bryderon ynglŷn â'r tybiaethau sylfaenol a ddefnyddiwyd fel sail i broses pennu'r gyllideb
- mae gan y Cyngor gynlluniau, sy'n cynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio ei lefel gymharol uchel o gronfeydd wrth gefn i gau'r bwlch cyllido
- mae'r Cyngor wedi oedi cyn cyhoeddi ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (ar gyfer 2021-22 – 2023-24) tan haf 2021, i aros am Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Canghellor y DU. Nid yw'r Cyngor wedi cyhoeddi Cynllun Ariannol Tymor Canolig i gyd-fynd â chyllideb 2020-21
- cyhoeddodd y Cyngor ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig diwethaf ar 7 Mawrth 2019, a oedd yn edrych ar y cyfnod 2019-20 i 2021-22.

**Arddangosyn 3: roedd gan y Cyngor fwlch cyllido o £3.5 miliwn yn 2021-22 ac nid yw wedi cyhoeddi unrhyw amcangyfrifon ar gyfer 2022-23 a 2023-24.**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch cyllido a nodwyd gan y Cyngor am y tair blynedd ganlynol.



## Mae gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn, ac mae'r rhan fwyaf yn cael eu rheoli'n ganolog ac maent yn gyfle i drawsnewid a gwella gwasanaethau

### Pam y mae rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy'n bwysig

9 Mae cael lefelau iach o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn rhwyd ddiogelwch bwysig i ategu cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â'u defnyddio i ariannu pwysau cyllido annisgwyl, gall cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio fod yn ffynhonnell gyllido bwysig i gefnogi mentrau 'buddsoddi i arbed' sy'n ceisio lleihau cost barhaus darparu gwasanaethau. Bydd cynghorau sy'n defnyddio eu cronfeydd wrth gefn heb gynllunio i wneud hynny er mwyn cau bylchau yn eu cyllidebau refeniw yn lleihau eu cronfeydd wrth gefn ac yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau annisgwyl ar y gyllideb yn y dyfodol.

Canfuom fod:

- gan y Cyngor £71.1 miliwn o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar 31 Mawrth 2020, sydd yn 26.4% o gost net gwasanaethau. Cynyddodd y cronfeydd wrth gefn y gellid eu defnyddio i £99.6 miliwn ar 31 Mawrth 2021 sy'n 40.8% o gost net gwasanaethau[2].
- mae Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio y Cyngor wedi cynyddu 86.5% yn ystod y pedair blynedd diwethaf o 2017 i 2021.
- mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu cadw mewn balansau dynodedig ac mae adolygiad o enwau a disgrifiadau o'r cronfeydd wrth gefn a neilltuwyd yn dangos bod y rhan fwyaf o falansau'n cael eu cadw yn ganolog yn hytrach na chan wasanaethau sy'n ymateb i'r galw
- ymddengys nad oes llawer o dystiolaeth i ddangos defnydd o gronfeydd wrth gefn i wella a thrawsnewid gwasanaethau, a all yn ei dro helpu â chynaliadwyedd y Cyngor
- mae ymrwymiadau gwaelodlin cyllido o ffynonellau cyllido untro yn arwain at bwysau cyllido heb ei ddatrys yng nghyllideb blynyddoedd y dyfodol.

[2] Datganiad Cyfrifon Heb Eu Harchwilio 2020/21

**Arddangosyn 4: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio a oedd gan y Cyngor yn ystod 2020-21 a'r pedair blynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.


| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost Net Gwasanaethau mewn £ miliynau [3] | 230.0 | 235.9 | 235.7 | 250.1 | 244.2 |
| Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio mewn £ miliynau [4] | 53.4 | 52.4 | 64.9 | 71.1 | 99.6– |
| Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio fel canran o gost net gwasanaethau [5] | 23.2% | 22.2% | 27.5% | 28.4% | 40.8% |
| Cymhariaeth â chynghorau eraill Cymru | 6/22 | 6/22 | 3/22 | 3/22 | [nid oes cymhariaeth 2020-21 ar gael] |

[3] Y gwerth a ddefnyddir yw cost net gwasanaethau a godir i'r gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad o Gyllido Gwariant, llai unrhyw gost gwasanaethau Cyfrif Refeniw Tai, ynghyd â phraeseptau, ardollau a llog dyledion. Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon

[4] Wrth sôn am gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio rydym yn cyfeirio at gyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd nad oes dim byd cyfreithiol sy'n atal cynghorau rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio i ddiben arall: Datganiad o Gyfrifon

[5] Cyfrifiad Archwilio Cymru

**Arddangosyn 5: Cyfanswm y Cronfeydd Wrth gefn y Gellir eu Defnyddio fel canran o Gost Net Gwasanaethau prif gynghorau Cymru yn 2019-20**




| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|
| Uchaf yn y Flwyddyn | 34.4% | 33.6% | 33.6% | 33.4% |
| Gwynedd | 23.2% | 22.2% | 27.5% | 28.4% |
| Isaf yn y Flwyddyn | 8.8% | 7.2% | 6.1% | 4.2% |

## Mae gan y Cyngor orwariant sy’n ailddigwydd yn ystod y flwyddyn mewn gwasanaethau allweddol, ac mae adroddiadau monitro’r gyllideb yn amrywio o’r sefyllfa ariannol derfynol a adroddwyd ar ddiwedd y flwyddyn

### Pam y mae’n bwysig rhagamcanu gwariant yn gywir

10 Mae’n bwysig cadw gorwariant a thanwariant o dan reolaeth a sicrhau bod y gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau a gynlluniwyd. Os nad yw cyngor yn gallu rhagamcanu a chynllunio ei wariant yn gywir, mae risg y bydd yn creu pwysau ariannol annisgwyl a allai beryglu ei allu i bennu cyllideb gytbwys. Gall patrymau tanwariant sylweddol leihau gallu cyngor i wireddu ei brif amcanion neu i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

Canfuom:

- gwnaeth gwasanaethau’r Cyngor cyn addasiadau a argymhellwyd orwario yn 2019-20 ac roedd yn amcangyfrif gorwariant ar lefel gwasanaeth yn 2020-21 yn ei ‘Adolygiad Diwedd Tachwedd’
- nad yw ‘Adolygiad Cyllideb Diwedd Tachwedd 2020’ 2020-21 yn adlewyrchiad cywir o sefyllfa ariannol y Cyngor, gan nad yw’r amcangyfrif o orwariant ariannol o £4.69 miliwn yn yr atodiadau’n cynnwys trosglwyddo cronfeydd wrth gefn o £1.3 miliwn a chyllid grant sydd o leiaf £3 miliwn. Mae’r ddau hepgoriad gyda’i gilydd yn lleihau’r diffyg o £4.69 miliwn gymaint

â £4.3 miliwn i ddiffyg sylweddol is o £390,000. Er bod yr uchod wedi'i esbonio yn yr adroddiad naratif, gallai'r hepgoriad yn y dadansoddiad gwasanaeth gamarwain a drysu darllenwyr.

- mae'r ffigurau 12-mis terfynol ar gyfer 2019-20 yn cofnodi gorwariant alldro o £2.6 miliwn ar ôl amcangyfrif gorwariant o £4.58 miliwn yn yr 'Adolygiad Diwedd Tachwedd'
- mae arfer y Cyngor o drosglwyddo gwarged i gronfeydd wrth gefn fel rhan o'i ymarferiad rheoli'r Gyllideb i bob pwrpas yn gorbwysleisio'r diffyg net a amcangyfrifir ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd trosglwyddo £1.09 miliwn o danwariant i gronfeydd wrth gefn yn 2019-20 i bob pwrpas yn cynyddu'r gorwariant net o £3.49 miliwn i £4.583 miliwn
- roedd y Cyngor hyd at 2020-21 wedi nodi ond heb roi sylw i batrymau arwyddocaol o orwariant yn ystod y flwyddyn mewn rhai o'i wasanaethau allweddol. Ni ddefnyddwyd gwybodaeth lefel gweithgaredd i bennu cyllidebau mewn meysydd galw allweddol. Byddai gweithgarwch cadarn a data costau ynghyd â dadansoddiad manwl o dueddiadau dros gyfnod o flynyddoedd yn galluogi'r Cyngor i bennu cyllidebau sy'n seiliedig ar ddefnyddwyr gwasanaeth gwirioneddol yn hytrach na demograffeg. Byddai hyn yn galluogi'r Cyngor i ailymuno â'r grŵp o gynghorau sydd â gwasanaethau sy'n perfformio'n fwy cyson o fewn eu cyllideb.

**Arddangosyn 6: Swm y gorwariant/tanwariant o'i gymharu â chyfanswm y gyllideb refeniw net**

Mae'r arddangosyn isod yn dangos swm y gorwariant neu danwariant yng nghyllideb refeniw net gyffredinol y Cyngor yn dilyn trosglwyddo i ac o gronfeydd wrth gefn yn y pedair blynedd diwethaf. Nid yw'r cyngor yn adrodd ar y cyllidebau corfforaethol arfaethedig i'r cabinet fel rhan o'i Adolygiadau Cyllidebol

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb refeniw net wreiddiol £ miliynau [6] | 241.0 | 246.0 | 259.6 | 265.4 | 280.3 |
| Alldro Refeniw Net Gwirioneddol [7] | 240.2 | 246.6 | 258.4 | 265.4 | 279.3 |
| Swm y (gwarged)/gorwariant gwirioneddol [8] | (0.8) | 0.6 | (1.2) | 0.0 | (1.0) |

[6] Y gwerth a ddefnyddir yw cost net gwasanaethau a godir i'r gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad o Gyllido Gwariant, llai unrhyw gost gwasanaethau Cyfrif Refeniw Tai, ynghyd â phraeseptau, ardollau a llog dyledion. Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon

[7] Wrth sôn am gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio rydym yn cyfeirio at gyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd nad oes dim byd cyfreithiol sy'n atal cynghorau rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio i ddiben arall: Datganiad o Gyfrifon

[8] Cyfrifiad Archwilio Cymru

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net | -0.3% | 0.2% | 0.4% | 0% | -0.4% |

**Arddangosyn 7: perfformiad o'i gymharu â'r gyllideb yn ôl gwasanaeth**

Mae'r arddangosyn isod yn dangos y gorwariant blynyddol yn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. Mae'r Cyngor wedi dyrannu cyllideb ychwanegol i'r gwasanaeth; fodd bynnag, mae'r gwariant gwirioneddol yn dal yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael.




| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb | 13,171 | 12,990 | 12,877 | 14,088 | 14,695 | 17,330 |
| Gwirioneddol | 13,163 | 13,187 | 13,653 | 15,732 | 18,054 | 18,591 |
| Gor/(Tan) Wariant (cyn addasiadau) | (8) | 197 | 776 | 1,644 | 3,359 | 1,261 |

# Gall parhau i gario drosodd arbedion heb eu cyflawni achosi pwysau ariannol heb ei ddatys ar wasanaethau; bydd canfod a chyflawni arbedion yn fwy o her yn y dyfodol

## Pam y mae'r gallu i ganfod a chyflawni cynlluniau arbed yn bwysig

11 Mae'r gallu i bennu meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac yna mynd ati i gyflawni'r arbedion hynny, yn bwysig i sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus mewn cyd-destun lle ceir pwysau ariannol cynyddol. Os na chaiff cynlluniau arbed eu cyflawni, gall arwain at orwariant sy'n galw am ddefnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig ac yn cynyddu maint yr arbedion y bydd angen eu gwneud mewn blynyddoedd i ddod i wneud iawn amdano. Os na chaiff cynlluniau arbed eu cyflawni a bod gofyn i feysydd gwasanaeth wneud arbedion na chawsant

eu cynllunio, ceir mwy o risg na fydd arbedion yn gydnaws â blaenoriaethau'r Cyngor neu y bydd datrysiadau 'tymor byr' yn cael eu canfod nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

Canfuom

- yn ystod y cyfnod 2016-17 i 2019-20, fod y Cyngor wedi cyflawni 84% o gynlluniau arbed ar gyfartaledd yn y flwyddyn y bwriadwyd eu cyflawni.
- gwnaeth y Cyngor barhau i weithredu'r elfen na chyflawnwyd o gynlluniau arbed, gan fynd ymlaen i gyflawni 97% o'r cynlluniau a fwriadwyd ar gyfer y cyfnod 2016-17 i 2019-20.
- bod y Cyngor yn cydnabod bod y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar ei allu i gyflawni arbedion, gan arwain at £1.7 miliwn o lithriant i 2021-22, gydag £1.0 miliwn o gynlluniau'n cael eu hailbroffilio 2022-23, a £0.8 miliwn o gynlluniau'n cael eu dileu
- mae perfformiad diweddar yn awgrymu ei bod yn fwy anodd cyflawni'r holl arbedion a fwriadwyd yn y cyllidebau Gofal Cymdeithasol o fewn y flwyddyn. Mae'r anallu i gyflawni arbedion dros gyfnod hwy yn awgrymu y gallai'r arbedion a fwriadwyd fod yn afrealistig. Gall disgwyliadau i wneud arbedion nad ydynt yn cael eu cyflawni arwain at ddadrithiad ymhlith y rhai sy'n ceisio cyrraedd targedau a chyllidebau afrealistig.
- yn rhan o'r adolygiad a gwblhawyd gan y Cabinet ym mis Ionawr 2021, dileuwyd £1.4 miliwn o gynlluniau arbed a gohirwyd £3.2 miliwn i'r blynyddoedd canlynol.

**Arddangosyn 8: Arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2016-17 i 2020-21 fel canran o arbedion a fwriadwyd**

Mae'r arddangosyn a ganlyn yn dangos faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed drwy arbedion a gynlluniwyd rhwng 2016-17 a 2020-21 a faint o'r arian hwnnw a arbedwyd ganddo mewn gwirionedd yn y flwyddyn cyflawni a fwriadwyd.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr arbedion a gynlluniwyd mewn £ miliynau [9] | 9.2 | 7.4 | 2.5 | 5.3 | 3.9 |
| Yr arbedion a fwriadwyd a gyflawnwyd mewn £ miliynau yn y flwyddyn y bwriadwyd eu cyflawni[10] | 8.7 | 6.0 | 1.8 | 4.0 | 1.6 |
| Yr arbedion a fwriadwyd nas cyflawnwyd mewn £ miliynau yn y flwyddyn y bwriadwyd eu cyflawni | 0.5 | 1.4 | 0.7 | 1.3 | 2.3 |
| Canran yr arbedion a gyflawnwyd yn y flwyddyn y bwriadwyd eu cyflawni | 94.3% | 80.9% | 73.1% | 75.6% | 41.0% |

12 Roedd y gallu i gyflawni cynlluniau arbed o fewn gwasanaethau'r Cyngor yn amrywiol. Er bod rhai adrannau wedi cyflawni'r rhan fwyaf neu'r holl arbedion a gynlluniwyd, mae 'Cynlluniau'n llithro a gyda rhai risgiau i'w cyflawni' dros gyfnod estynedig. Mae hyn ar ei fwyaf amlwg yn Oedolion; Iechyd a Llesiant; Plant a Chefnogi Teuluoedd, ac i raddau llai mewn gwasanaethau eraill. Mae'r cyngor wedi dileu rhai o'r arbedion, ond mae swm sylweddol yn dal i fod wedi'i oedi i'w cyflawni mewn blynyddoedd i ddod.

13 Mae'r Cyngor wedi parhau i gyflawni arbedion na weithredwyd yn y flwyddyn a gynlluniwyd gan gyflawni cyfartaledd o 97% yn ystod y cyfnod 2016-17 i 2019-20.

[9] Y gwerth a ddefnyddir yw cost net gwasanaethau a godir i'r gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad o Gyllido Gwariant, llai unrhyw gost gwasanaethau Cyfrif Refeniw Tai, ynghyd â phraeseptau, ardollau a llog dyledion. Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon

[10] Wrth sôn am gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio rydym yn cyfeirio at gyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd nad oes dim byd cyfreithiol sy'n atal cynghorau rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio i ddiben arall: Datganiad o Gyfrifon

## Mae hylifedd y Cyngor wedi bod yn sefydlog yn y cyfnod 2015-16 i 2019-20 ac mae wedi codi ychydig yn 2020-21

### Pam y mae sefyllfa hylifedd y Cyngor yn bwysig

14 Pam y mae cymharu asedau cyfredol â rhwymedigaethau cyfredol (hylifedd) yn bwysig:

- mae'n dangos sut mae cyngor yn rheoli ei gyllid tymor byr
- er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n aml i weld a fydd sefydliadau'n gallu talu eu dyledion yn y tymor byr, nid yw hyn yn debygol o fod yn risg i gynghorau am eu bod yn gallu cael benthyciadau tymor byr. Mae hefyd, fodd bynnag, yn gweithredu fel dangosydd o'r modd mae cyngor yn rheoli ei gyllid tymor byr
- dylai cynghorau sydd â chymarebau hylifedd isel sicrhau bod ganddynt drefniadau ar waith i dalu eu rhwymedigaethau
- efallai bod costau ychwanegol i gynghorau sy'n dibynnu ar fenthyca tymor byr i dalu dyledion
- dylai cynghorau sydd â chymarebau hylifedd uchel ystyried a ydynt yn rheoli eu hasedau cyfredol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

15 Canfuom:

- fod hylifedd y Cyngor wedi bod yn sefydlog ar y cyfan yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac nid yw hylifedd cymharol gyson yn golygu pryderon ynglŷn â chynaliadwyedd ariannol; ac
- nid yw'r Cyngor yn rhagweld unrhyw newid yn sefyllfa ei hylifedd yn ystod y tair blynedd nesaf.

**Arddangosyn 9: cymhareb cyfalaf gweithio 2015-16 i 2019-20**

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Asedau Cyfredol [11] | 98.6 | 83.8 | 105.6 | 91.4 | 104 | 150 |
| Rhwymedigaethau Cyfredol [12] | 99.7 | 92.9 | 115 | 88.5 | 98.3 | 112 |
| Cymhareb Cyfalaf Gweithio | 1.0 | 0.9 | 0.9 | 1.0 | 1.1 | 1.3 |

[11] Mae Asedau Cyfredol yn cynnwys: Buddsoddiadau Tymor Byr; Asedau a gedwir i'w gwerthu; Rhestrau Eiddo; Dyledwyr Tymor Byr; ac Arian Parod a chyfatebol

[12] Mae Rhwymedigaethau Cyfredol yn cynnwys: Benthyca Tymor Byr; Credydwyr Tymor Byr; a Darpariaethau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.